LLANDEGFEDD

Newsletter | Issue 22 | February 2015

Earning the trust of our customers every day

Providing our neighbours and leisure users at Llandegfedd with an update about...

Dŵr Cymru Welsh Water's new development

Watersports Centre

The Watersports Centre is expected to be handed over to Welsh Water, following practical completion of the new build on 2nd March 2015. Sailing Club members and visitors on courses will have use of the building at times to be agreed with the club which will be published on the website to keep everyone informed. Club representatives are in dialogue with the Welsh Water marketing team so that we are sure to welcome all sailors, new and old, to Llandegfedd. We are also working with the sailing club and the Royal Yachting Association to promote the site to new participants in all watersports.

Llandegfedd Watersports (formerly known as Gwent Adventures) will open for sailing wind surfing and paddle sport courses, and equipment hire on April 1st and our prices can be found here.

It has not been possible to open the site to the public before April 1st. However, to help the sailing club get off to a good start for their season, sailing club members will be admitted to site by arrangement on Sunday 15th 22nd and 29th March, safety permitting, to help them prepare their boats for the new season and for race sailing. By 15th March the toilets will be working, so that will be an historic day for the sailors that make it onto site.

The Boat Store

The boat store is still planned for the area behind the space occupied by the Sailing Club's old container, but it will not be completed in time for the start of the new season.

With all the toing and froing of construction traffic the site is more rutted and damaged than we anticipated. There is a lot of work to do to restore the car parks and the roads on site, and the planners now require us to formally revisit the landscaping provisions on site as part of any detailed consent for the Boat store and the Rangers workshop. We are now therefore treating the re-landscaping and the building of a Boat store and Workshop as a follow-on and separate project to the visitor centre and watersports centre project. Assuming a favourable resolution with the planners, these buildings will be forthcoming ahead of the 2016 season, and at that time the planning condition, which is to clear the site of old containers, will be met. Most of the landscaping work will be done immediately before April 1st. If we run into any unforeseen delays to the landscaping works, the priority will be, as ever, to keep the site safe. Therefore, if re-tarmacking works, in the period 1st to 10th April, for example, preclude access to visitors, anglers or sailors, then site closure notices will be given on a day by day basis, with as much notice as possible. Works of this kind will avoid times that sailors or anglers need access to site, as far as possible.

The Containers

We have asked the cadets and others who can no longer access their containers to postpone their return to a home at the water's edge until we can allocate them secure storage in a new storage facility. The sailing club and other groups have been allocated space within the Watersports Centre where possible, and the prolonged use of containers is now agreed with those groups that can temporarily operate from containers as their storage facilities.

We are into a period where we must ask those who had containers as their bases before the site became a building site, to retain them for one further season. We will work with those organisations to facilitate their use of their old containers as best we can, in terms of location and access.

The Rangers' workshop

Our Ranger team will continue to keep a base at the Sluvad Water Treatment works for the coming season. The aim is for the new workshop, on the site of the former Sailing Club club-house, to become the base for all site maintenance activity for the 2016 season, subject to planning approvals.

Angling

The angling season will begin on 1st April and we look forward to welcoming our angling customers on their return to Llandegfedd. The lake will be newly-stocked, and the fishery will be managed to new heights now that we have the right facilities for what promises to be one of Welsh Water's top venues for still water fly fishing, competing with Llyn Brenig and Llys y Fran to offer the very best fishing in Wales, and beyond. The signs are good that the new jetties will arrive ahead of 1st April, and installation will be a swift operation. The Rangers have prepared the fleet of 32 anglers' boats for hire for the new season, and they will all have new, more powerful engines. The fleet, and the quality of the fishing, will attract national and international competitions, especially when our angler customers can appreciate the facilities that are available to them in the visitor centre.

Café – Visitor Centre

The finishes in the Visitor Centre are as impressive as the steel and timber finishes in the Water sports Centre, but it has not been possible to dry out the concrete structure in time to lay the oak floor in the café. We still intend to open the new café, and the shop downstairs, on 1st April 2015, but if there is a holdup we will undertake to not let this cause delay to the opening of the new angling season, which we have promised for 1st April. If necessary we will sell permits from the Rangers offices in the Visitor Centre, rather than from the shop. Graeme Millar, Catering Manager, has recruited the café and retail team, their training regime is planned, and the menu for the excellent café fare that will be served will soon be available at **llandegfedd.co.uk**

Footpaths

The new footpaths and walking trails, including the path to the car park at the north end of the reservoir are nearing completion. Our own staff will be waymarking them in March, and Monmouthshire County Council are waymarking the paths that link to our own, as they leave Welsh Water land. Keen walkers will be able to use the new trails from the 1st April.

Questions

Please continue to email me at **tom.packham@dwrcymru.com** if you have any questions. Also keep an eye out on Llandegfedd's Facebook and Twitter pages for more regular updates.

Best wishes

Tom Packham
Dŵr Cymru Welsh Water
Estates Business Manager

LLANDEGFEDD

Newyddlen | Rhifyn 22 | Chwefror 2015

Yn ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd

Yn rhannu'r newyddion diweddaraf am ddatblygiad newydd Dŵr Cymru â'n cymdogion a'r bobl sy'n mwynhau gweithgareddau hamdden yn Llandegfedd

Y Ganolfan Chwaraeon Dŵr

Bydd y gwaith ar adeilad newydd y Ganolfan Chwaraeon Dŵr wedi cael ei gwblhau i bob pwrpas erbyn 2 Mawrth 2015, a disgwylir ei drosglwyddo i ofal Dŵr Cymru ar y dyddiad hwnnw. Caiff aelodau ac ymwelwyr sy'n dod am gyrsiau yn y Clwb Hwylio ddefnyddio'r adeilad ar adegau a bennir gyda chymeradwyaeth y clwb, a byddwn yn cyhoeddi'r dyddiadau hyn ar y wefan. Mae cynrychiolwyr y clwb mewn trafodaethau â thîm Marchnata Dŵr Cymru gyda'r nod o groesawu hwylwyr hen a newydd i Landegfedd. Rydyn ni'n gweithio gyda'r clwb hwylio a'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol i hyrwyddo'r safle er mwyn denu pobl newydd i gymryd rhan yn yr holl chwaraeon dŵr.

Bydd Chwaraeon Dŵr Llandegfedd (gynt Anturiaethwyr Gwent) yn agor ar 1 Ebrill gan gynnig cyrsiau hwylio, hwylfyrddio, chwaraeon rhwyfo a gwasanaeth llogi offer. Mae'r prisiau ar gael trwy glicio yma.

Ni fydd yn bosibl agor y safle i'r cyhoedd cyn 1 Ebrill. Ond mewn ymdrech i roi cychwyn cadarn i dymor y clwb hwylio, byddwn yn derbyn aelodau'r clwb hwylio i'r safle trwy drefniant arbennig ar ddydd Sul 15, 22 a 29 Mawrth os bydd hynny'n ddiogel, i baratoi eu cychod ar gyfer y tymor newydd ac ar gyfer rasys hwylio. Bydd y tai bach yn weithredol erbyn 15 Mawrth, felly bydd yn ddiwrnod hanesyddol i'r hwylwyr sy'n gallu dod.

Y Storfa Gychod

Mae yna gynlluniau o hyd i osod storfa gychod ar dir y tu ôl i hen flwch storio'r Clwb Hwylio, ond ni chaiff ei chwblhau mewn pryd ar gyfer dechrau'r tymor newydd.

Mae'r holl draffig gwaith sydd wedi bod yn mynd a dod wedi achosi mwy o dyllau a difrod ar y safle nag yr oeddem wedi ei ddisgwyl. Mae angen gwneud llawer o waith i adfer y meysydd parcio a'r ffyrdd ar y safle, ac mae'r cynllunwyr wedi mynnu ein bod ni'n edrych eto'n ffurfiol ar y darpariaethau tirlunio ar y safle yn rhan o unrhyw ganiatâd manwl ar gyfer y Storfa Gychod a Gweithdy'r Gofalwyr. Rydyn ni felly'n trin y gwaith o dirlunio ac adeiladu'r Storfa Gychod a'r Gweithdy fel prosiect dilynol ar wahân i'r ganolfan ymwelwyr a'r ganolfan chwaraeon dŵr. Os cawn benderfyniad ffafriol gan y cynllunwyr, bydd yr adeiladau hyn yn barod cyn dechrau tymor 2016, a bryd hynny, bydd modd diwallu'r amod cynllunio i glirio'r holl hen flychau storio o'r safle. Caiff y rhan fwyaf o'r gwaith tirlunio ei gyflawni toc cyn 1 Ebrill. Os oes unrhyw oedi annisgwyl gyda'r gwaith tirlunio, y flaenoriaeth, wrth gwrs, fydd sicrhau diogelwch y safle. Felly, os oes angen cyflawni gwaith i ailosod y tarmac yn ystod y cyfnod rhwng 1 a 10 Ebrill, er enghraifft, ac y bydd hyn rhwystro mynediad i ymwelwyr, pysgotwyr neu hwylwyr, yna byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau dydd wrth ddydd sy'n nodi bod y safle ar gau, gan roi cymaint o rybudd â phosibl. Fe wnawn ein gorau glas i osgoi gwneud gwaith o'r fath ar adegau pan fo angen i hwylwyr neu bysgotwyr ddefnyddio'r safle.

Y Blychau Storio

Rydyn ni wedi gofyn i'r cadetiaid a'r bobl eraill sy'n methu â chyrraedd at eu blychau storio ohirio dychwelyd i gartref ar lan y dŵr nes y gallwn glustnodi man storio diogel iddynt mewn cyfleuster storio newydd.

Rydyn ni wedi cyrraedd pwynt lle mae'n rhaid i ni ofyn i'r bobl hynny a oedd â'u canolfannau mewn blychau storio cyn i'r lle droi'n safle adeiladu, eu cadw am dymor arall. Byddwn ni'n gweithio gyda'r sefydliadau hynny i hwyluso eu defnydd o'r hen flychau storio cymaint â phosibl, a hynny yn nhermau lleoliad a mynediad.

Gweithdy'r Gofalwyr

Bydd tîm y Gofalwyr yn cadw eu canolfan yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Sluvad ar gyfer y tymor hwn. Y nod yw creu canolfan ar gyfer holl waith cynnal-a-chadw'r safle yn y gweithdy newydd ar safle'r hen Glwb Hwylio ar gyfer tymor 2016, er bod hynny'n amodol ar ganiatâd cynllunio.

Pysgota

Bydd y tymor pysgota'n dechrau ar 1 Ebrill ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gael croesawu ein cwsmeriaid pysgota nôl i Landegfedd. Bydd y llyn wedi cael ei stocio o'r newydd, a chaiff y bysgodfa ei rheoli i safonau newydd nawr bod gennym ni'r cyfleusterau i greu un o ganolfannau gorau Dŵr Cymru ar gyfer pysgota â phlu mewn dyfroedd llonydd, a fydd yn gallu cystadlu â Llyn Brenig a Llys-y-Frân i gynnig y pysgota gorau yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'n argoeli'n dda y bydd y glanfeydd newydd yn cyrraedd cyn 1 Ebrill, ac na fydd y gwaith o'u gosod yn cymryd fawr ddim o dro. Mae'r Gofalwyr wedi paratoi'r fflyd o 32 o gychod pysgota a fydd ar gael i'w llogi ar gyfer y tymor newydd, a bydd injans newydd a mwy pwerus ynddynt. Bydd y fflyd, ac ansawdd y pysgota, yn denu cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn enwedig am y bydd ein cwsmeriaid pysgota'n gallu mwynhau cyfleusterau penigamp y ganolfan ymwelwyr hefyd.

Y Caffi a'r Ganolfan Ymwelwyr

Mae gorffeniad y Ganolfan Ymwelwyr yn drawiadol, a'r gorffeniad dur a phren yn y Ganolfan Chwaraeon Dŵr hefyd, ond ni fu modd sychu'r strwythur concrit mewn pryd i osod y llawr coed derw yn y caffi. Rydyn ni'n dal i fwriadu agor y caffi newydd, a'r siop lawr llawr, ar 1 Ebrill 2015, ond os oes unrhyw oedi yn hynny o beth, ni fyddwn ni'n gadael i'r peth ohirio dechrau'r tymor pysgota newydd ar 1 Ebrill. Os oes angen, byddwn ni'n gwerthu trwyddedau o swyddfa'r Gofalwyr yn y Ganolfan Ymwelwyr, yn hytrach nag o'r siop. Mae Graeme Millar, y Rheolwr Arlwyaeth, wedi recriwtio tîm y caffi a'r siop, wedi cynllunio eu hyfforddiant, a bydd y fwydlen fendigedig ar gyfer y caffi ar gael cyn bo hir trwy fynd i **llandegfedd.co.uk**

Llwybrau cerdded

Mae'r llwybrau cerdded newydd, gan gynnwys y llwybr i'r maes parcio ym mhen gogleddol y gronfa, yn agos at gael eu cwblhau. Bydd ein staff ein hunain yn gosod arwyddion ar hyd y rhain ym mis Mawrth, ac mae Cyngor Sir Mynwy wrthi'n gosod arwyddion ar y llwybrau a fydd yn cysylltu â'n rhai ni, y tu hwnt i dir Dŵr Cymru. Bydd modd i gerddwyr ddefnyddio'r holl lwybrau newydd o 1 Ebrill ymlaen.

Cwestiynau

Mae croeso o hyd i chi anfon neges e-bost ataf yn **tom.packham@dwrcymru.com** os oes unrhyw gwestiynau gennych. Cadwch lygad ar dudalennau Facebook a Twitter Llandegfedd am y newyddion diweddaraf hefyd.

Dymuniadau gorau

Tom Packham
Rheolwr Busnes Ystadau Dŵr Cymru